

DOLEN Y TAB – 29

6–7 TACHWEDD 2020

OEDFA 8 Tachwedd

Sul Heddwch gyda Helen Prosser, ynghyd â myfyrdod gan Mererid Hopwood a cherddoriaeth bwrpasol i fyfrio ar gost trais a'r gobraith am heddwch.

OEDFAON GWEDDILL TACHWEDD

15 Oedfa i'r Teulu gyda Heulyn, Catrin a rhai o'r Twmiaid.

22 Emlyn Davies.

29 Y Parchg. Gethin Rhys.

Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .

10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb

Sul y Cofio gyda Ron Williams.
(Ar gael ar wefan yr Undeb annibynwyr.org a [YouTube](https://www.youtube.com/watch?v=...)).

11.00 Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Dan ofal y Parchedig Ddr. R. Alun Evans.

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Dr. Rhidian Griffiths, Aberystwyth.

12.30 Radio Cymru Bwrw Golwg gyda John

Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru.

HELPU POBL DDIGARTREF

Ar ôl trafod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, mae John Llew wedi cael ar ddeall bod cyllid ganddyn nhw i sicrhau cartref, dillad a nwyddau i'r bobl ifanc fydd yn derbyn ein talebau, ond maen nhw'n bryderus iawn am sefyllfa llawer o'r bobl ddigartref yn yr ardal a byddent yn falch o gael ein help. Bydd John yn cydlynu apêl am ddiillad, dillad gwely a nwyddau hylendid ar eu cyfer, ac yn eu casglu yn y capel.

Bydd modd i chi ddod â'ch cyfraniadau i'r capel ar foreau lau rhwng 10 a 12 o'r gloch, gan ddechrau ar 12 Tachwedd.

Diolch ymlaen llaw i chi am eich cydweithrediad.

BWYD A DANTEITHION NADOLIG

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn un o elusennau'r Tabernacl eleni, ac fe fyddan nhw'n derbyn cyfraniad ar ddiwedd y flwyddyn. O drafod gyda'r elusen, mae John Llew yn deall y bydden nhw hefyd yn croesawu bwydydd a danteithion Nadoligaidd (bwyd sych, bisgedi, siocledi ac ati), heb anghofio y bydd llawer o blant yn eu llochesi dros y Nadolig.

Mae croeso i chi ddod â chyfraniadau i'r capel ar foreau lau, rhwng 10–12 o'r gloch, yr un pryd ag y cesglir nwyddau a dillad i bobl ddigartref, o Dachwedd 12fed ymlaen. Dydy Cymorth i Ferched Cymru ddim yn cael derbyn unrhyw nwyddau eraill oherwydd Covid-19, gan y byddai heintio yn eu gorfodi i gau'r llochesi.

Ymddiheuriadau am eich llethu â cheisiadau, ond fe fyddai'n resyn colli cyfle i wneud gwahaniaeth i bobl, llawer ohonyn nhw'n blant bach, sydd mewn sefyllfa amhosib o anodd.

DIOLCH YN FAWR

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

TALEBAU NADOLIG

Mae hi'n amser dechrau meddwl am helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal unwaith eto, er mwyn dod ag ychydig o ysbryd y Nadolig i'w bywydau, yn enwedig â'r pandemig yn gwneud eu hamgylchiadau'n anoddach.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn poeni hefyd am anrhegion Nadolig i blant bach anghenus sy dan eu gofal, gan na allan nhw gasglu tegantau fel y cyfryw oherwydd perygl Covid-19. Er na allwn ni gynnal casgliad tegantau, fe allwn ledaenu ein casgliad talebau er mwyn helpu i ariannu ymgyrch prynu tegantau y Gwasanaethau Cymdeithasol.

O ganlyniad, bydd ein casgliad talebau ni yn helpu plant bach yn ogystal â phobl ifanc eleni, fel ein bod yn gwneud ein gorau i gynnal ein lefel arferol o gymorth yr adeg hon o'r flwyddyn, yng ngwir ystyr y Nadolig.

Bydd y casgliad yn weithredol tan ddiwedd mis Tachwedd. Dyma'r manylion ar gyfer cyfrannu:

Anfon siec yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf.

at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU gyda nodyn yn cynnwys eich enw a 'Talebau Nadolig'.

Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30-96-72
Rhif cyfrif 03607499

gan gynnwys eich enw a nodi 'Talebau Nadolig'.

DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM EICH HAELIONI DROS Y MISOEDD DIWETHAF

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

GWERSI'R GOEDWIG

Mae dylanwad Tim Berniers-Lee, a ddyfeisiodd y We Fyd Eang ar ddechrau'r 1990au, yn cael ei ystyried yn gyfraniad mor bwysig os nad yn bwysicach ag un Johannus Gutenberg, tad y llyfr printiedig yn y bymthegfed ganrif. Ond tra bo enw Berniers-Lee yn hysbys ar draws y byd, go brin bod enw Suzanne Simard yn gyfarwydd i drwch y boblogaeth. Ecolegydd o Ganada yw hi, a gwnaeth ddarganfyddiad cwbl syfrdanol, hefyd ar ddechrau'r 1990au, sef y ffenomen naturiol a lysenwir bellach y 'Wood Wide Web'.

Mae'r stori'n dechrau pan oedd Simard yn ymchwilydd ecoleg ifanc yn astudio coedwig yng ngogledd-



orllewin British Columbia. Yno, sylwodd ar gyd-ddigwyddiad od, sef wrth i goedwigwyr 'chwynnu' coed bedw ifanc mewn rhan o'r goedwig roedd y coed pin ifanc, sef y 'cnwd' y bwriedid ei gynaeafu ymhen rhai blynyddoedd, yn gwywo a marw. Roedd hyn yn groes i'r gred gydnabyddedig bod 'aelodau ifanc' o'r ddau rywogaeth yn cystadlu am yr adnoddau gwerthfawr oedd yn y pridd.

Rhwydwaith Cymdeithasol Tanddaearol

Os oedd y coed ifanc hyn yn cynorthwyo'i gilydd, yna mae'n rhaid bod rhywbeth yn cysylltu'r coed hyn. I geisio datrys y ffenomen hon, dechreuwyd cloddio o dan lawr y goedwig a chanfod bod yna filltiroedd lawer o edefyn organig (*hyphae*) am bob metr sgwâr o bridd. Trwy ddyfalbarhau gyda'i hymchwil, llwyddodd Simard nid yn unig i brofi bod presenoldeb eang iawn o *hyphae* dan lawr coedwigoedd, ond ei fod yn creu rhwydwaith oedd yn galluogi'r coed i ofalu am les ei gilydd – nid yn unig coed o'r un rywogaeth, ond hefyd coed a berthynai i rywogaethau eraill. Felly, yn groes i'r disgwyl, profwyd fod y coed cryfaf a mwyaf iach mewn coedwig yn cynorthwyo'r gweiniaid.

Dod at ein coed

Mae'r darlun hwn o gytgord 'dyngarol' ymhlith coed yn dra gwahanol i'r lluniau rydym wedi bod yn dystion iddynt o'r UDA dros y misoedd diwethaf, ac yn fwyaf arbennig yr wythnos hon. Gwelsom Arlywydd y wladwriaeth sy'n honni ei bod y mwyaf teg a democrataidd o holl wledydd y byd, unwaith yn rhagor yn herio egwyddorion canolog ei sylfaenwyr ac ystumio'r gwirionedd yn ddirugaredd er ei les ei hun. Ond nid ar ochr arall Môr yr Iwerydd yn unig mae arweinwyr gwladwriaethau wedi bod yn euog yn ddiweddar o esgeuluso eu cyfrifoldeb moesol i ofalu am y tlodion, y digartref a'r ffoaduriaid hynny sy'n mentro eu bywydau eu hunain a'u plant wrth geisio lloches ddiogel.

Mae ystyr y dywediad 'Dod at ein coed' yn gyfarwydd iawn, ac mae hynny'n neges berthnasol nid yn unig i arweinwyr gwladwriaethau'r byd ond hefyd i bob un ohonom. Rydym i gyd yn euog o danseilio dyfodol y greadigaeth yn y frwydr barhaus yn erbyn cynhesu byd-eang a'r gor-ddefnydd o blastigau, gan anwybyddu'r rhybuddion o'r effaith gaiff ein hymddygiad ar ddyfodol ein plant a phlant ein plant.

Mae ystyr y dywediad 'Dod at ein coed' yn gyfarwydd, ond er bod sawl un wedi rhoi cynnig arni nid oes cytundeb hyd yn hyn am ei *darddiad*. Tybed a oedd ein hynafiaid yn ddigon craff i synhwyro natur 'ymddygiad' coed ymhell cyn i Suzanne Simard gloddio o dan lawr y goedwig yng Nghanada ar ddechrau'r 1990au?

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

11 o'r gloch fore Sul 29 Tachwedd
Cynhelir y cyfarfod dros Zoom

Cyhoeddir rhagor o fanylion ynghylch sut i ymuno
â'r cyfarfod yn agosach at y dyddiad.

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel, www.tabernacl.org.

Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol at:

gehpenqwertn@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.